



CYDWEITHREDFA GWELLA GWASANAETHAU  
GOFAL A LLESIANT **GOGLEDD CYMRU**

**NORTH WALES** SOCIAL CARE AND WELL-BEING  
SERVICES IMPROVEMENT COLLABORATIVE

## **Munudau Cyfarfod Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**

**11 March 2022**

**9:00 yb to 12:00 yp**

**Trwy gyfrwng Zoom**

Yn bresennol:	Mary Wimbury (Cadeirydd), Alwyn Jones, Ann Woods, Catrin Roberts, Cyng. Christine Jones (yn bresennol tan 11:00 am), Cyng. Bobby Feeley, Cyng. Dafydd Meurig, Cyng. John Pritchard, Delyth Lloyd-Williams (ymunodd am 10:20 am), David Hughes, Dr Lowri Brown, Estelle Hitchon, Fôn Roberts, Helen Corcoran, Iwan Davies (yn bresennol tan 10:00 am), Lucy Reid, Meinir Williams-Jones, Morwena Edwards, Neil Ayling (gadawodd rhwng 10:30 a 11:00 am), Nicola Stubbins (yn bresennol tan 10:30 am), Ricki Owen, Rob Smith (yn bresennol o 10 am), Sam Parry (yn bresennol tan 10:30 am), Shan Lloyd Williams, Sian Tomos, Teresa Owen, Alison Kemp (yn bresennol ar ran Bethan E Jones)
Ymddiheuriadau:	Bethan E Jones, Chris Stockport, Cyng. Cheryl Carlisle, Cyng. Llinos Medi Huws, Ffion Johnstone, Jenny Williams, Jo Whitehead
Hefyd yn bresennol:	Catrin Perry, Rheolwr Comisiynu a'r Gweithlu, Tîm Cydweithio Rhanbarthol (ar gyfer eitem 2 ar y rhaglen) Philip Provenzano, Cyfarwyddwr Cynorthwyol y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (ar gyfer eitem 4 ar y rhaglen) Kathryn Holding, Uwch Ymgynghorydd y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (ar gyfer eitem 4 ar y rhaglen) Edward Hughes, Prif Weithredwr, Clwyd Alyn (ar gyfer eitem 5 ar y rhaglen)

### **1 Croeso, cyflwyniadau ac ymddiheuriadau**

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod a nodwyd yr ymddiheuriadau uchod.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelod newydd, David Hughes, a oedd yn cynrychioli Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, a diolchwyd i Paul Scott, sef cynrychiolydd y gwasanaeth a oedd yn ymadael.

## **2 Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth**

Derbyniodd y bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd y gwaith ar yr Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth, mewn perthynas ag Adran 14 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru), sy'n nodi bod angen i bartneriaid rhanbarthol lunio Asesiadau o Boblogaeth sy'n asesu'r angen am ofal a chymorth ac anghenion cymorth gofalwyr yn eu hardal.

Yn dilyn trafodaeth yn y cyfarfod ym mis Ionawr, ac adborth a gafwyd wedi hynny, rhannwyd adroddiad diwygiedig o'r Asesiad ac aethpwyd drwy drefniadau llywodraethu pob partner. Roedd yr adborth ychwanegol a gafwyd yn dilyn gwaith craffu pellach o ganlyniad i'r broses lywodraethu hefyd wedi ei gynnwys yn yr adroddiad.

Cymerwyd cam gweithredu o gyfarfod y Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol yn Ionawr 2022 i sicrhau bod fersiwn gryno o'r Asesiad ar gael, ac mae fersiwn Saesneg y crynodeb wedi ei chynnwys ym mhecyn y cyfarfod heddiw. Mae'r fersiwn Gymraeg yn cael ei chyfieithu ar hyn o bryd.

Er bod yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn ofyniad statudol, y prif ddiben dros ymgymryd â'r gwaith yw darparu sylfaen dystiolaeth i gefnogi sefydliadau a gwasanaethau ar draws y rhanbarth ar gyfer cylchoedd cynllunio strategol, gan ategu'r bartneriaeth o integreiddio gwasanaethau a chefnogi trefniadau partneriaeth.

Esboniodd CR fod y gofyniad i lunio adroddiad hygyrch, rhanbarthol mewn cyfnod byr o amser wedi cyfyngu ar yr hyn y gellir ei gynnwys. Mae'r gwaith, a gynhaliwyd yn ystod amser heriol iawn oherwydd pwysau'r pandemig, wedi arwain at gryn dipyn o waith i swyddogion er mwyn sicrhau bod dogfen ystyrlon yn cael ei llunio.

Mae dogfen derfynol yr Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yn ddogfen fyw a bydd yn cael ei diweddarau'n barhaus. Bydd proses barhaus yn cael ei datblygu er mwyn gwella a diweddarau'r Asesiad fel ei fod yn parhau i fod yn ystyrlon. Defnyddir yr Asesiad hefyd i ddrafftio gwaith yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad ac fe'i defnyddir hefyd i ddangos tystiolaeth o waith integreiddio ar draws y rhanbarth.

Gofynnir i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru gadarnhau eu bod yn cymeradwyo fersiwn derfynol Asesiad o Anghenion Poblogaeth Gogledd Cymru 2022. Mae angen llunio a chyhoeddi'r adroddiad erbyn 1 Ebrill 2022.

Dywedodd aelodau'r Bwrdd fod yr Asesiad wedi derbyn ymateb cadarnhaol o ganlyniad i'r broses lywodraethu, ac roedden nhw'n cytuno y dylid cefnogi'r Asesiad Rhanbarthol o Anghenion y Boblogaeth.

### **3 Is-Grŵp Plant Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**

Bydd y Bwrdd, a sefydlwyd yn Ionawr 2022, yn cwrdd yn fisol a defnyddir y cyfarfod ym mis Mawrth i drafod blaenoriaethau'r is-grŵp Plant. Darperir adroddiad ysgrifenedig ar y blaenoriaethau er mwyn i'r Bwrdd gytuno arnyn nhw ym mis Ebrill.

Mae lansiad ffurfiol dros y we wedi'i drefnu ar 15.3.2022. Gwnaed llawer o waith i greu'r lansiad hwn dros y we ac mae aelodau'r Bwrdd wedi cael eu gwahodd.

Holodd AW am y cynrychiolwyr a gofynnodd a oes cynrychiolwyr o blith cydweithwyr yn y trydydd sector ar yr is-grŵp plant.

Er mwyn i'r is-grŵp barhau i fod yn grŵp llai ac oherwydd y nifer sylweddol o geisiadau gan gydweithwyr allanol i fod yn aelodau ohono, esboniodd FR eu bod wedi penderfynu sefydlu Grŵp Cyfeirio Budd-ddeiliaid ehangach, i roi cyngor ar gynigion gwasanaethau penodol, i annog ymgysylltiad lleol cadarnhaol ac i sicrhau bod safbwyntiau Budd-ddeiliaid yn cael eu deall a'u hystyried yn gywir yn ystod y broses. Bydd y Grŵp Ymgysylltu â Budd-ddeiliaid yn allweddol er mwyn siapio a dylanwadu ar y gwaith gweithredol gan yr is-grŵp Plant a Phobl Ifanc.

### **4 Gwerthuso Rhaglen y Gronfa Drawsnewid**

Mynychodd Philip Provenzano a Kathryn Holding o'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus i gyflwyno'r canfyddiadau lefel uchel, y camau nesaf a'r argymhellion allweddol sy'n deillio o ddrafft cyntaf yr adroddiad gwerthuso.

Cafodd adroddiad drafft y Gwerthusiad o Raglen y Gronfa Drawsnewid ei fwydo gan y Ddamcaniaeth Newid, y Fframwaith Gwerthuso o adroddiadau blaenorol, gwaith ymgynghori ag arweinwyr y rhaglen, staff y prosiect, budd-ddeiliaid allweddol a chynrychiolwyr asiantaethau partner, ac roedd yn cynnwys gwybodaeth gorfforedig o gardiau sgôr ac astudiaethau achos Atebolrwydd yn Seiliedig ar Ganlyniadau.

Mae'r gwerthusiad yn dilyn canllawiau a ddatblygwyd gan Lywodraeth Cymru ynghylch gofynion gwerthuso rhanbarthol y Gronfa Drawsnewid a ddarparwyd i bob Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol. Darparwyd templed safonol yn cynnwys cyfres o gwestiynau ymchwil diwygiedig er mwyn gwneud y broses werthuso'n berthnasol yn sgil pandemig Covid-19 a chanfod ei effaith ar brosiectau'r Gronfa Drawsnewid.

Mae Adroddiad Terfynol y Gwerthusiad yn dangos safbwynt rhanbarthol ac yn rhoi darlun cynhwysfawr a chadarn o'r hyn mae'r Gronfa Drawsnewid wedi ei gyflawni ar gyfer y rhanbarth yn ei gyfanrwydd. Mae gofyn i Fyrddau Partneriaeth Rhanbarthol gyflwyno un adroddiad cyffredinol am 4 Grŵp Gwasanaeth y

Rhaglen Drawsnewid dros y 3 blynedd diwethaf. Roedd yr amcanion canlynol yn gyffredin i'r pedair rhaglen:

- Darparu gofal ataliol ac ymyrraeth gynnar.
- Gwella profiad pobl o'r gwasanaethau, drwy wella dulliau integreiddio, lleihau'r rhwystrau rhwng y gwasanaethau sydd eisoes yn bodoli a darparu gofal didor.
- Gwella canlyniadau defnyddwyr gwasanaethau.
- Atal argyfwng.

Rhoddodd PP ganmoliaeth i'r gwaith sylweddol a wnaed yng Ngogledd Cymru dros y 3 blynedd diwethaf, a nodwyd uchafbwyntiau penodol ar gyfer pob rhaglen. Fe wnaeth y Rhaglen Drawsnewid Anableddau Dysgu, Rhaglen Drawsnewid Law yn Llaw at Iechyd Meddwl a Rhaglen Drawsnewid Plant a Phobl Ifanc nodi nodau, amcanion a pherchnogaeth weithredol eglur o'r cychwyn cyntaf, a gwelwyd manteision amlwg.

Ychydig o effaith a gafodd y Rhaglen Drawsnewid Gwasanaethau Cymunedol, sef rhaglen gymhleth ac uchelgeisiol i drawsnewid lles a gofal iechyd yn y gymuned yng Ngogledd Cymru, wedi'i chyflwyno ar draws 5 ffrwd waith. Er y gwelwyd llwyddiant nodedig gyda'r rhaglen o ran trawsnewid digidol, catalyddion cymunedol, prosesau a dogfennau, nid yw'r rhaglen wedi cyflawni ei hamcanion yn llawn.

Nododd AK ei bod yn siomedig i glywed yr adborth hwn a gofynnodd am fanylion y dystiolaeth er mwyn dysgu ar gyfer y dyfodol h.y. ymgysylltiad y rheolwyr a monitro data.

Mae'r adroddiad drafft yn nodi'r prif themâu mewn perthynas â'r ffactorau llwyddiant hanfodol, themâu allweddol y rhwystrau ac mae'n nodi 8 argymhelliad ar gyfer gweithredu.

Yn dilyn trafodaeth yng nghyfarfod y bwrdd heddiw, bydd gan aelodau'r Bwrdd gyfle i roi sylwadau terfynol ar yr adroddiad drafft i'r Sefydliad Gofal Cyhoeddus erbyn 25.3.2022. Bydd y ddogfen derfynol wedi ei chwblhau erbyn 1.4.2022, wedi ei chymeradwyo gan y Bwrdd Partneriaeth erbyn 8.4.2022 a'i chyflwyno i Lywodraeth Cymru erbyn 30.4.2022.

Fe wnaeth NS gydnabod y gwaith a wnaed gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus ar y gwerthusiad a chadarnhaodd ei bod yn cefnogi'r argymhellion a nodwyd.

Holodd NA a fyddai fersiwn hawdd ei ddarllen ar gael, a chytunodd KH y byddai'n trafod hyn gyda'i chydweithwyr yn y Sefydliad.

odwyd yr adroddiad drafft a chytunwyd y byddai'r adroddiad llawn yn cael ei rannu gydag aelodau'r Bwrdd unwaith eto gan nodi'r dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adborth. Cyflwynir yr adroddiad terfynol i Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ym mis Ebrill.

*Camau Gweithredu:*

- Adroddiad Gwerthuso Rhaglen y Gronfa Trawsnewid drafft i'w ddsbarthu i aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol a sylwadau terfynol i'w darparu erbyn 25.3.2022 - Pawb
- Adroddiad Gwerthuso Rhaglen y Gronfa Trawsnewid Terfynol - Agenda mis Ebrill – RW

## **5 'Tai ac Iechyd: Cynnig Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig ar gyfer Atebion Gofal Arloesol ac Integredig'**

Esboniodd SLW gefndir y cynnig - Un o'r pethau y bu'r Bwrdd yn eu trafod dros y misoedd diwethaf oedd sut yr anfonir cleifion adref o'r ysbyty ar yr adeg iawn pan maen nhw'n feddygol barod i wneud hynny, yn ogystal ag osgoi mynd i'r ysbyty yn y lle cyntaf. Mae'r Consortia o Gymdeithasau Tai wedi cyd-drafod eu cyfraniad i sicrhau ateb mwy cynaliadwy i'r heriau sy'n wynebu'r Awdurdodau Lleol a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

Esboniodd Edward Hughes, Prif Weithredwr Clwyd Alyn, fod y Consortia o Gymdeithasau Tai, mewn partneriaeth â'r trydydd sector a'r sector gwirfoddol, yn rhoi cynnig integredig gerbron i gefnogi iechyd a gofal cymdeithasol, i weithio gyda phartneriaid er mwyn mynd i'r afael ag achosion ac effeithiau tlodi, ac i helpu pobl i ddychwelyd i'r gwaith, brwydro yn erbyn arwahanrwydd cymdeithasol neu gefnogi a darparu mynediad at fwyd maethlon.

Mae'r sector Tai, fel mudiad, yn arbenigwyr ar ddarparu gwasanaethau yn y gymuned ac maen nhw'n cynnig cymorth o ran gofal canolraddol, sut i ganfod gwasanaethau gofal, cydlynu gofal a gwasanaethau yn y cartref i gefnogi gofal sylfaenol e.e. y cynllun peilot ar ofal canolraddol ym Mhenrhos Pwllheli, partneriaeth camu i lawr rhwng yr Awdurdod Lleol, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r Awdurdodau Iechyd, gan ddarparu gwell gwerth am arian, gyda 18 o gynlluniau gofal tebyg ar waith mewn cymunedau ar draws Gogledd Cymru.

Mae gwaith Cymdeithasau Tai yn rhan annatod o gefnogi cymunedau a gellid ymgorffori llawer o waith parhaus ar draws y rhanbarth yn llwybrau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, h.y. oedi cyn gadael i gleifion adael yr ysbyty oherwydd diffyg cefnogaeth yn y cartref, bydd creu gwasanaethau a pheynnau sy'n gyson ar draws Gogledd Cymru i gyd yn rhoi gwir gyfle ac atebion cost effeithiol i leihau'r pwysau ar y Bwrdd Iechyd. Byddai'r Consortia o Gymdeithasau Tai yn croesawu'r cyfle i fwrw ymlaen â'r drafodaeth.

Mae cydweithwyr Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn croesawu'r cynnig, gyda gwir gyfle i gydweithio ar nifer o lwybrau.

Rhodddwyd cynnig gerbron i gael trafodaeth bellach gyda'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, yn ogystal ag agoriadau o fewn y safon iechyd corfforaethol ynghylch gwaith gwirfoddoli, y sector iechyd gwyrdd, heneiddio'n iach, dechrau iach mewn bywyd, therapi lleferydd ac iaith a chyfle i weithio gydag arbenigwyr yn y gymuned a grwpiau bregus.

Soniodd RS am gyfarfod diweddar o Benaethiaid Cymdeithasau Tai Gogledd Cymru a Phrif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, a disgwylir am gyfarwyddyd ynghylch camau nesaf y drafodaeth hon.

Cadarnhaodd AK, er bod ystod lawn o fesurau wedi eu rhoi yn eu lle i gynorthwyo gyda gofal sylfaenol h.y. cyfeirwyr gofal, pwyntiau siarad gyda meddygfeydd, croesawir y gefnogaeth i leihau'r pwysau ar y Bwrdd Iechyd, gyda chyfleoedd gwych o ran edrych ar yr effaith a gweithredu'r cynnig hwn i ddarparu llety i bobl sy'n gadael yr ysbyty.

Diolchodd EH am y sylwadau a'r gefnogaeth. Mae gan y consortia o Gymdeithasau Tai, ynghyd â'r trydydd sector a sefydliadau gwirfoddol, lawer i'w gynnig ac edrychir ymlaen at y camau nesaf i fwrw ymlaen â'r rhaglen fel bwrdd rhanbarthol, a'r cyfle ardderchog hwn i wneud gwir wahaniaeth.

## **6 Adroddiad y Gronfa Gofal Integredig Ch3 2021-22**

Fe wnaeth NA, swyddog arweiniol y Gronfa Gofal Integredig gydnabod y gwaith sylweddol sydd wedi'i wneud gan yr holl asiantaethau partner ar ffrwd waith y Gronfa. Ymhlith y prif bwyntiau mae:

Refeniw – Mae'r gwariant ar ddiwedd Ch3 yn £13.2m (65% o'r dyraniad blynyddol). Nodwyd tanwariant mewn sawl cynllun, a chytunwyd ar gynlluniau llithriant. Y rhagolygon ar gyfer diwedd y flwyddyn yw rhaglen wedi ei gwario'n llawn erbyn diwedd chwarter 4. Allan o'r 125 prosiect, mae gan 97 ohonyn nhw statws BRAG gwyrdd, 7 â statws coch a 21 â statws oren. Mae'r prosiectau sydd â statws coch ac oren yn deillio'n bennaf o broblemau recriwtio, a heriau staffio a Covid. Yn 9 mis cyntaf y flwyddyn, roedd £3.9m wedi'i wario'n uniongyrchol i gefnogi gofalmwyr a £1.6m o fuddsoddiad wedi mynd tuag at brosiectau yn y trydydd sector.

Cyfalaf - Mae yna 18 o brif gynlluniau cyfalaf a 18 o gynlluniau cyfalaf disgresiwn, gyda gwariant o £1.8m yn Ch3 (17.2%). Daw'r tanwariant oherwydd oedi i brosiectau yn deillio o effaith Covid a bod rhan helaeth o waith rheoli'r rhaglen ar gyfer 2 ganolfan is-ranbarthol ar gyfer asesu plant yn arwain at gyfanswm o £4.4m.

Cyllid Cyfalaf Ychwanegol - yng nghanol mis Tachwedd, cafodd partneriaid gyfle i gyflwyno cynigion ar gyfer Cyllid Cyfalaf ychwanegol - cafodd 10 cynllun eu cymeradwyo gan Lywodraeth Cymru, gwerth £1.12m.

Cyllid ar gyfer Tai Cymdeithasol Mwy - yng nghanol mis Rhagfyr, cafodd yr holl bartneriaid gyfle i gyflwyno cynigion ar gyfer eiddo tai cymdeithasol mwy - mae Llywodraeth Cymru wedi cymeradwyo 6 chynllun, sydd â gwerth o £720,000.

Gwasanaeth Awtistiaeth Integredig - y gwariant yn Ch3 yw £584,638 (89%), gyda phartneriaid ar hyn o bryd yn datblygu eu cynlluniau gweithredu ar gyfer y Cod Ymarfer. Caiff y rhain eu dwyn ynghyd mewn cynllun rhanbarthol a'u cyflwyno yn ôl y gofyn i Lywodraeth Cymru.

Gwasanaeth Asesu Cof - cyllid cylchol o £678,000. Yn dilyn ymarfer comisiynu llwyddiannus, mae 4 partner trydydd sector wedi eu canfod i gyflawni Rhan 1 a 3 y llwybr.

Cytunodd y Bwrdd y dylid nodi'r sefyllfa a chytuno ar adroddiad Ch3 2021/22 o ffrydiau cyllido'r Gronfa Gofal Integredig.

## **7 Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyllid yn y Dyfodol a chynllunio cynaliadwyedd**

Rhoddodd CR y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau ar y cyllid yn y dyfodol a chynllunio cynaliadwyedd. Yng Nghyfarfod y Bwrdd ym mis Chwefror, cytunwyd ar yr egwyddorion allweddol ynghylch y gronfa isadeiledd a sut byddai'r cyllid yn cael ei ddyrannu.

Esboniodd CR fod cydweithwyr rhanbarthol wedi bod yn gweithio'n ddiweddar gyda thimau lleol ynghylch datblygu cynigion yn erbyn pob model gofal ar gyfer Llywodraeth Cymru. Mae hwn yn ddarn o waith sylweddol, a dylid llongyfarch y timau rhanbarthol ar y cynnydd a wnaed dros yr wythnosau diwethaf ar asesiadau pob prosiect. Mae dau fodel gofal drafft eisoes wedi cael eu paratoi a byddan nhw'n cael eu rhannu gyda Llywodraeth Cymru heddiw. Bydd adborth gan Lywodraeth Cymru ar y ddau fodel hyn yn cael ei ddarparu i dimau lleol ei ystyried ar y cynigion sy'n weddill.

Mae gwaith ar y trywydd iawn ar gyfer 6 chynnig y modelau gofal a bydd yr adroddiad drafft yn cael ei gyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ebrill i aelodau ei ystyried, ynghyd â chynnig sylwadau a chytuno arno cyn ei gyflwyno'n ffurfiol i Lywodraeth Cymru.

Ar ôl i'r asesiad o'r rhaglenni presennol o dan y Gronfa Gofal Integredig a'r trawsnewid gael ei gwblhau, bydd y rhanbarth yn gallu trafod a chytuno ar sut bydd gweddill y cyllid yn cael ei ddefnyddio.

Bydd y ddau gynnig cyllid Cyfalaf a'r trefniadau llywodraethu'n cael eu cyflwyno i'r Bwrdd ym mis Ebrill.

Codwyd y pwyntiau canlynol yn y drafodaeth:

Mae'r Gronfa Integreiddio Ranbarthol wedi rhoi cyfle i'r rhanbarth weithio'n wahanol, i strwythuro gwaith y modelau gofal ar y gofynion yn y dyfodol o ganlyniad i effaith y pandemig. Dylid ystyried trafodaeth lawn y Bwrdd er mwyn sicrhau bod pawb yn cytuno ar y blaenoriaethau o fewn y modelau gofal, a chysylltu'r holl waith â'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth er mwyn deall gofynion y dyfodol, yn rhanbarthol ac yn lleol.

Cadarnhaodd CR, er nad yw'r Asesiad wedi ei fabwysiadu'n ffurfiol, fod gan dimau lleol ddealltwriaeth a'u bod yn gwbl ymwybodol o brif ofynion yr Asesiad a sut bydd hyn yn cyd-fynd â'r rhaglen bresennol a fydd yn parhau. Bydd yr Asesiad yn cysylltu ac yn siapio'r holl raglenni newydd.

Esboniodd CR fod y 2 fodel gofal drafft sydd eisoes wedi eu paratoi'n cael eu hanfon ymlaen at Lywodraeth Cymru er mwyn canfod faint o fanylion sydd eu hangen. Gwaith ar y gweill yw'r adroddiadau ar hyn o bryd, nid dogfennau terfynol, a cheir trafodaeth am y blaenoriaethau a sut i gysylltu â'r rhaglen waith a'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill.

Cyflwynir rhaglen ddrafft y Gronfa Integreiddio Ranbarthol i Lywodraeth Cymru ar ddechrau mis Ebrill. Mae LIC wedi caniatáu hyblygrwydd dros y 12 mis cyntaf, ac mae wedi rhoi cyfle i'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol ailymweld â'r cynigion. Cadarnhaodd CR y bydd yr holl gynigion yn cael eu trafod yn llawn gan y Bwrdd cyn eu cyflwyno i Lywodraeth Cymru.

## **8 Y wybodaeth ddiweddaraf am BIPBC**

Diweddariad am Covid - mae'r heriau'n parhau, gyda'r cynnydd diweddar yn nifer yr achosion yn y gymuned. Mae'r sefyllfa'n cael ei monitro'n agos. Mae'n galonogol nad yw'r niferoedd yn cynyddu yn yr adran gofal dwys, sy'n dangos llwyddiant ysgubol rhaglen frechu Gogledd Cymru. Mae'r gwaith yn parhau ac yn datblygu ar gynllunio rhaglen atgyfnerthu'r brechlyn yn y gwanwyn/hydref.

Gwaith o Ansawdd - cyflwynwyd amryw o adroddiadau i'r Pwyllgor Diogelwch a Phrofiad, yn unol ag ymroddiad BIPBC i fod yn agored a thryloyw.

- Sefydlwyd Panel Ansawdd Fasgwlaidd, sy'n deillio o'r adolygiad a gomisiynwyd gan Goleg Brenhinol y Llawfeddygon mewn perthynas â gwasanaethau fasgwlaidd a bydd yn adrodd yn rheolaidd ar eu canfyddiadau. Sefydlwyd partneriaeth gydag Ymddiriedolaeth Ysbyty Prifysgol Lerpwl, a fydd yn cefnogi'r gwasanaeth fasgwlaidd drwy rai newidiadau yn arweinyddiaeth glinigol y gwasanaeth yn lleol.



- Mae gwaith ar y gweill ar gynlluniau gwella gwasanaethau Iechyd Meddwl, gan ddwyn ynghyd argymhellion o'r adolygiad allanol. Bydd y gwaith hwn yn cael ei ystyried o safbwynt gwahanol a bydd yn ystyried system a llwybrau ehangach i yrru gwelliannau ar draws y gwasanaethau Iechyd meddwl.

Holodd y Cynghorydd BF ynghylch gwaith ailstrwythuro BIPBC a'r effaith ar Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru, yn enwedig o ran y gymuned a'r bartneriaeth gyda'r ALI.

Cafwyd cadarnhad gan TO am y newidiadau sy'n digwydd o fewn strwythur BIPBC i'r model gweithredu 'Yn Gryfach gyda'n Gilydd' er mwyn gwella dulliau gweithio mewnol a chyda phartneriaid allanol. Ni fyddai'n addas i TO wneud sylw pellach ar hyn o bryd a chynigiwyd y rhoddir briff yn un o gyfarfodydd y Bwrdd yn y dyfodol.

## **9 Adolygiad o Fwrdd Partneriaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru**

Esboniodd CR wrth y Bwrdd am adolygiad arfaethedig o'r Bwrdd. Trafodwyd effaith y pandemig ar y Bwrdd mewn nifer o fforymau, a chroesawir safbwyntiau'r holl aelodau mewn perthynas â'r hyn sy'n gweithio'n dda a'r gwelliannau a awgrymir i gefnogi newidiadau yn y dyfodol.

Y cam cyntaf fydd casglu safbwyntiau aelodau'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol drwy arolwg electronig erbyn diwedd mis Mawrth. Mae croeso hefyd i aelodau'r Bwrdd gysylltu â CR os byddai'n well ganddyn nhw gael trafodaeth dros y we. Gofynnir i aelodau'r Bwrdd ystyried y 4 maes canlynol:

- Llywodraethu
- Gweinyddu
- Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Codi Ymwybyddiaeth

Croesawir awgrymiadau hefyd ar feysydd eraill y gellir eu gwella.

Cytunodd y Bwrdd y dylid nodi'r adroddiad. Cyflwynir adroddiad arall i gyfarfod y Bwrdd ym mis Ebrill ynghylch canlyniadau'r arolwg a'r cynigion cychwynnol i wella mecanwaith y Bwrdd dros y deufis nesaf.

### *Cam Gweithredu*

- Adroddiad ar ganlyniadau'r arolwg i'w gyflwyno i'r Bwrdd mis Ebrill.

## **10 Cofnodion a chymau gweithredu'r cyfarfod diwethaf - Chwefror 2022**

Cytunodd pawb fod y cofnodion yn adlewyrchiad cywir o'r cyfarfod.

## **11 Unrhyw fater arall**

Esboniodd ID fod y Grŵp Cydgysylltu Strategol nawr wedi dod i ben. Penderfynodd y Grŵp Cydgysylltu Strategol na fyddai'r Grŵp Cydlynu Adferiad yn parhau gan fod y themâu adferiad eisoes yn cael eu trafod gan drefniadau cyfredol neu gan drefniadau busnes craidd y partneriaid.

**Dyddiad y cyfarfod nesaf:** Dydd Gwener, 8 Ebrill 2022, 9:00 – 12:00 pm